Cofnodion cyfarfod hybrid **CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 21 Chwefror 2024, yn dechrau am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Clerc

**119. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, Miss S. Fleming a D. Simmons, a gan Gaplan y Maer, y Parchedig Gheorghiu Gould.

**120. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion canlynol cyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir.

Dywedodd Clerc y Dref fod camgymeriad yng nghofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2023 ynghylch lefel y Praesept. Awdurdodwyd ei newid gan y Maer a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol i alluogi codi'r Praesept cywir ar Gyngor Sir Ddinbych.

Cyfarfod y Cyngor - 20 Rhagfyr 2023 - Cofnodion rhifau 88-103

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cyfarfod Arbennig y Cyngor - 9 Ionawr 2024 - Cofnodion rhifau 104-106

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cyfarfod y Cyngor - 17 Ionawr 2024 - Cofnodion rhifau 107-118

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 17 Ionawr 2024 - Cofnodion rhifau 37-39

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 7 Chwefror 2024 - Cofnodion rhifau 40-42

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol | - | 7 Chwefror 2024 | - | Cofnodion rhifau 65-76 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

## 121. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf, oherwydd ei gwaeledd iechyd (copi wedi'i ddosbarthu gyda'r agenda). Cyfeiriodd yn benodol at agor yr adeilad Peirianneg newydd ar gampws Coleg Llandrillo yn y Rhyl y bu ynddo yn gynharach y diwrnod hwnnw, ac roedd o'r farn ei fod yn gyfleuster rhagorol a fydd yn darparu cyfleoedd gwych i fyfyrwyr a gweithlu sgiliedig iawn yn yr ardal yn y dyfodol.

Soniodd y Dirprwy Faer am Swper dathlu pen-blwydd Samariaid y Rhyl, yn 50 oed, lle cafodd wasanaeth gwych a noson braf iawn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 122. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B (rhestr taliadau nad ydynt yn rhai rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gyflwynwyd gan Glerc y Dref.

| Taleb Rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1784 | Canda Copying Ltd | Rhentu'r llungopïwr | 259.32 |
| 1785 | Canda Copying Ltd | Ffioedd llungopïo | 289.16 |
| 1786 | Delwedd Ltd | Cynnal a lletya'r wefan | 828.17 |
| 1787 | Cyng. C. L. Williams | Hawliad milltiredd – 30 Gorffennaf 2023 – Ionawr 2024 | 133.20 |
| 1788 | CCLL Helping Hands for Ukraine | Dau docyn i ddigwyddiad Te Prynhawn ar 3/3/24 | 23.00 |
| | **Cyfanswm y taliadau Atodlen B** | | **£1,532.85** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a llofnodi'r taliadau gan ddau gynghorydd.*

**123. CAIS I ANERCH Y CYNGOR – MR TOM BARHAM, CADEIRYDD CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH (CGGSDd)**

Cyfeiriodd y Maer at y cais uchod gan y Cynghorydd B. Mellor, a gofynnodd i'r Cynghorydd Mellor egluro rhagor am ei gais.

Cynghorodd y Cynghorydd Mellor y byddai'r cyflwyniad yn rhoi eglurhad cyffredinol am waith Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**124. EITEM GAN AELOD: GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS**

Gofynnodd y Cynghorydd K. R. Jones am gefnogaeth yr aelodau i atgoffa Cyngor Sir Ddinbych fod y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus cyfredol i atal baw cŵn yn dod i ben ym mis Awst 2024, ac i ofyn am ei adnewyddu ac os gwneir hynny sut y bydd yn cael ei orfodi yn absenoldeb contractwr penodol i gyflawni'r gwaith?

Cynigiodd yr aelodau syniadau sut i fynd i'r afael â'r broblem, fel mwy o arwyddion mewn ardaloedd lle mae'r broblem yn wael, ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo codi a gwaredu baw cŵn ac i rybuddio y gellir wynebu dirwy am beidio â gwneud hynny.

Roedd yr aelodau yn teimlo y gallai taflen, i'w dosbarthu gyda'r taflenni i esbonio'r system casglu gwastraff newydd a fydd yn mynd i holl drigolion y Rhyl cyn gweithredu'r system newydd ganol fis Ebrill, yn apelio ar drigolion i godi a gwaredu baw eu ci fod o gymorth.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) y byddai Clerc y Dref yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn a yw'r Gorchymyn yn mynd i gael ei adnewyddu, beth yw'r sefyllfa gyfredol ynghylch gorfodaeth ym maes baw cŵn a holi am y posibilrwydd o gynnwys taflen ar y mater i'w ddanfon gyda'r wybodaeth am y gwasanaeth casglu gwastraff newydd.*

*(ii) defnyddio'r gyllideb llythyr newyddion gwerth £2,000 i dalu am y daflen os yw Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno i'w dosbarthu ar ran y Cyngor Tref.*

**125. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**126. CYTUNDEB CAMERÂU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH – Y RHYL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad cyfrinachol ar y cyd ganddo ef a'r Cynghorydd A. R. James (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn tynnu sylw at ddau fater i'r aelodau eu hystyried.

Y cyntaf oedd y dylai'r cytundeb i fonitro'r camerâu teledu cylch cyfyng, sydd yn nwylo Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer ar hyn o bryd, fod wedi dod i ben y llynedd a'i fod allan i dendr yn awr. Er mwyn i'r gwasanaeth a ddarperir gan Gyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer barhau nes cwblhau'r broses dendro roedd yn ofynnol i'r holl bartneriaid lofnodi cytundeb estyniad.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau awdurdodi'r Maer i lofnodi'r ddogfen, os oeddynt yn cytuno ii'r ddarpariaeth camerâu teledu cylch cyfyng (monitro a chadw'r data) barhau nes dyfarnu'r contract newydd i ddarparydd newydd neu'r darparydd cyfredol.

Yr ail fater oedd hysbysu'r aelodau am y safiad a gymerwyd ganddo a'r Cynghorydd James (cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Bartneriaeth Camerâu Teledu Cylch Cyfyng) yn dilyn cais i ddyblu cyfraniad y Cyngor Tref yn mlwyddyn ariannol 2024/25, sef bod cyllideb y Cyngor Tref wedi'i phennu am y flwyddyn i ddod ac felly ni ellid talu'r cynnydd yn y cyfraniad.

Yn ychwanegol, roeddynt wedi awgrymu wrth y bartneriaeth y byddai cynnydd graddol dros gyfnod y contract newydd yn fwy hydrin, ond byddai hyn yn ddibynnol ar adolygu nifer y camerâu a'u lleoliadau yn y Rhyl. Roeddynt yn aros am ystadegau ynghylch sut roedd y camerâu'n cael eu monitro a nifer y delweddau a recordiwyd a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) fod yr aelodau'n awdurdodi'r Maer i lofnodi'r ddogfen estyniad i'r cytundeb.*

*(ii) cymeradwyo gweithredoedd y Cynghorydd James a Chlerc y Dref.*

## 127. GOLEUADAU YN STRYD FAWR Y RHYL

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dilyn cais gan Swyddog Coed Cyngor Sir Ddinbych, a gynghorodd fod y ceblau clymu a ddefnyddiwyd i glymu'r goleuadau ar y coed yn y Stryd Fawr yn difrodi'r coed ac y gallai hyn darfu ar eu datblygiad yn y dyfodol.

Felly gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ystyried un ai dynnu'r goleuadau cyfredol i lawr a'u hadnewyddu gyda goleuadau newydd ar gost o £1,820, neu dynnu'r goleuadau a'r ceblau clymu ymaith a pheidio â'u hadnewyddu. Byddai cost i dynnu'r goleuadau i lawr, ond nid oedd y gost yn wybyddus ar hyn o bryd.

Cytunodd yr aelodau fod y goleuadau ar y coed yn arbennig o effeithiol a ***PHENDERFYNWYD*** *awdurdodi Clerc y Dref i drefnu tynnu'r goleuadau ymaith a'u hadnewyddu ar gost o £1,820.*

**128. <u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..……………………..

Dyddiad: …..……………………..